



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Fframwaith Strategol ar gyfer Gyrfaoedd GIG Cymru

Cynnwys

1. Trosolwg	4
2. Themâu'r Fframwaith Strategol hwn	5
3. Pam yr ydym yn cymryd y dull hwn Rôl AaGIC yn y maes hwn Sut byddwn yn gweithio ag eraill	6
4. Y pedair thema	9
5. Y Ddyletswydd Ansawdd	18
6. Sut y gwnaethom ddatblygu'r fframwaith hwn	19
7. Datblygu ein Fframwaith Strategol Gyrfaedd – Ein hymagwedd	20

1. Trosolwg

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn Awdurdod Iechyd Arbennig. Dyma'r corff addysg statudol a'r sefydliad gweithlu strategol ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw datblygu gweithlu sy'n gwella gofal ac iechyd y boblogaeth.

Fel rhan o'r GIG, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ledled Cymru a thu hwnt, i gynllunio, datblygu, addysgu a hyfforddi'r gweithlu presennol a'r gweithlu yn y dyfodol, ac rydym yn nodi ac yn arwain ar gyfleoedd gweithlu strategol ac arbenigol yn ogystal â mynd i'r afael â risgiau sy'n effeithio ar alw a chyflenwad y gweithlu.

Mae'r gwaith a wnawn yn effeithio ar bawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn y pen draw ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau iechyd.

Drwy ddatblygu gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, rydym yn gwneud cyfraniad sylfaenol at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio.

Rydym am ddenu pobl i rolau yn ein gwasanaethau iechyd a chreu gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ac rydym yn ehangu mynediad i yrfaoedd a chyfleoedd iechyd.

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r egwyddorion o sut y byddwn ni yn AaGIC, yn arwain yr agenda atyniad gyrfaoedd iechyd, yn nodi blaenoriaethau, yn pennu cyfeiriad a safonau ar gyfer atyniad gyrfaoedd iechyd, a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid allweddol, y buom yn ymgysylltu â nhw i lunio'r fframwaith.

2. Themâu'r Fframwaith Strategol hwn

Mae pedair thema yn darparu sylfaen gyffredinol y Fframwaith Strategol hwn. Datblygwyd y rhain mewn ymateb i'r canfyddiadau a ddeilliodd o'n hymchwil a'n dadansoddiadau a oedd yn sail i'r gwaith hwn, a mewnbyn ac ymatebion gan bartneriaid drwy ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid:

1. dulliau, adnoddau rhagorol a gwybodaeth hygyrch, cynhwysol, ac oed-briodol
2. gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ystyrlon ac ysbrydoledig ar draws GIG Cymru
3. mynediad at gymorth ac arweiniad arbenigol gan gynnwys trwy lysgenhadon a mentoriaid
4. gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer dulliau digidol a thechnolegol.

Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd, gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, fel y byddwn gyda'n gilydd yn cyflawni ein cynlluniau a'n cyfleoedd, gan wneud yn siŵr eu bod yn hygyrch i bawb.



3. Pam yr ydym yn cymryd y dull hwn

GIG Cymru yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru, gyda mwy na 100,000 o staff yn gweithio ar draws mwy na 350 o rolau gwahanol gan gynnig cyfleoedd enfawr ar gyfer gyrfaoedd cyffrous a gwerth chweil.

Fodd bynnag, nid yw llawer o'r rolau hyn y ddigon hysbys, a dyw pobl ddim yn ymwybodol o sut i gyrchu nhw. Ochr yn ochr â hyn, mae'r ffordd y mae pobl eisiau gweithio ac astudio yn newid yn gyflym - a dymunir dulliau mwy hyblyg.

Dylanwad arall ar y gwaith hwn yw siâp newidiol ein poblogaeth. Mae Cyfrifiad 2021 yn dweud wrthym fod gan Gymru gyfradd genedigaethau is o gymharu â Lloegr ac mae gennym fwy o bobl rhwng 50 a 64 oed, sy'n golygu bod gennym alw cynyddol am ein gwasanaethau iechyd, a bod llai a llai o bobl yng Nghymru yn gallu ateb y galw.

Fodd bynnag, mae gennym gyfleoedd enfawr ar gyfer gyrfaoedd amrywiol a chyffrous ym maes iechyd, a'n nod yw hyrwyddo'r cyfleoedd hyn fel bod gyrfaoedd iechyd yn dod yn yrfa o ddewis.


Rhaid i'n gwaith fod yn berthnasol i'r 5 cenhedlaeth wahanol sy'n gweithio ar hyn o bryd, neu a fydd yn gweithio'n fuan yn GIG Cymru - o'r 'Baby-boomers' (y rhai a aned hyd at 1965) hyd at Gen Alpha (ganwyd o 2010).

Mae gan bob grŵp ddisgwyliadau gwahanol ar gyfer eu gyrfaoedd, felly mae angen i ni sicrhau bod dulliau clir, arloesol ac amrywiol ar gael i ddenu pobl i'n gyrfaoedd a fydd yn eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol.

Fodd bynnag, nid ydym yn gwneud hyn yn ynysig. Wrth ddatblygu'r fframwaith strategol hwn, gwnaethom ymchwilio i arfer gorau, dadansoddi ystod o ddata ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i ddeall y sefyllfa'n well.

Fe wnaethom goladu amrywiaeth o adborth a safbwyntiau i'n helpu i nodi'r hyn oedd yn dda, yr hyn y gallem barhau i wella, lle'r oedd bylchau canfyddedig, a'r ffordd orau i ni fynd i'r afael â nhw.

Llywiodd y gwaith hwn y fframwaith hwn, sydd â phedair colofn strategol - y themâu lefel uchel a ddisgrifir yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon - y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni ein camau gweithredu hyd at 2030.



Rôl AaGIC yn y maes hwn

Mae'r dirwedd gyrfaoedd yn gymhleth, gyda llawer o sefydliadau a chyrrff proffesiynol â chylch gwaith ar gyfer gyrfaoedd ac felly'n dylanwadu ar ein gwaith.

Cyfrifoldeb statudol AaGIC yw arwain yr agenda gyrfaoedd ar gyfer GIG Cymru. Sicrhodd ein hymagwedd at ddatblygu'r fframwaith hwn fod ein gwaith yn canolbwyntio ar y bobl yr ydym yn ceisio'u cyrraedd a'n harweiniodd at ddatblygu'r 4 thema gyffredinol fel sail ein gwaith.

Sut byddwn yn gweithio ag eraill

Fel yr arweinydd ar gyfer atyniad gyrfaoedd iechyd yng Nghymru, byddwn yn nodi blaenoriaethau ac yn pennu'r cyfeiriad a'r safonau ar gyfer gwybodaeth a dulliau sy'n ymwneud â gyrfaoedd iechyd.

Byddwn yn cysylltu ac yn gweithio gyda chydweithwyr a sefydliadau partner i gyflawni'r rhain fel ein bod gyda'n gilydd yn cynyddu ein cyfraniadau unigol i'r eithaf.





Cyflogwyr

Mae gan gyflogwyr rôl hollbwysig o ran darparu cyfleoedd i bobl dreulio amser mewn yr amgylchedd gwaith. Byddwn yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi gydag adnoddau a phecynnau cymorth i'w helpu i ddarparu cyfleoedd cyffrous a modern.

Gwasanaethau Cyngori Gyrfaoedd

Mae gan gyflogwyr rôl hollbwysig o ran darparu cyfleoedd i bobl dreulio amser mewn amgylchedd gwaith. Byddwn yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi gydag adnoddau a phecynnau cymorth i'w helpu i ddarparu cyfleoedd cyffrous a modern.

Ysgolion a Cholegau

Byddwn yn cysylltu'r GIG ac addysg, gan gefnogi athrawon a darlithwyr trwy ddarparu adnoddau, gwybodaeth, mynediad at lysgenhadon a phrofiadau gwaith.

Partneriaid Addysg AU/AB

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid addysg bellach ac uwch, i greu cyfleoedd ysbrydoledig trwy ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, gan gynnwys profiadau efelychu sy'n gysylltiedig â chwricwla a safonau.

Colegau Brenhinol/Cyrff Proffesiynol

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i rannu gwybodaeth, ac i helpu i ddylunio, siapio a diffinio'r atyniadau a gynigir yn y dyfodol.

Rhwydwaith Gyrfaoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ein rhwydwaith ffyniannus yw lle bydd ein partneriaid yn dod at ei gilydd i symud y fframwaith hwn ymlaen. Byddwn yn defnyddio'r rhwydwaith hwn i ymgysylltu'n barhaus â'n partneriaid, rhannu arfer da, dathlu cyflawniadau, a nodi cyfleoedd i wella.

4. Y Pedair thema



Dulliau, gwybodaeth ac adnoddau rhagorol, hygyrch, cynhwysol, ac sy'n oed-briodol.



Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer dulliau digidol a thechnolegol



Mynediad at gymorth ac arweiniad arbenigol gan gynnwys trwy lysgenhadon a mentoriaid.



Gyrfaedd a phrofiadau byd gwaith ystyrlon ac ysbrydoledig ar draws GIG Cymru.

Thema un:

Dulliau, gwybodaeth ac
adnoddau rhagorol, hygyrch,
cynhwysol ac sy'n oed-briodol.

Pam rydym yn gwneud hyn:

Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, clywsom y gall gwybodaeth am yrfaoedd fod o ansawdd amrywiol ac weithiau'n llethol.

Dywedodd ein rhanddeiliaid wrthym fod AaGIC yn bartner y gellir ymddiried ynddo, ar gyfer gyrfaoedd iechyd. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae adnoddau dibynadwy y gellir cael gafael arnynt yn hawdd ac y gellir ymddiried ynddynt, o nifer fach o ffynonellau, yn allweddol i'w gwaith.

Clywsom fod angen i'n gweithlu yn y dyfodol gael gwybodaeth glir, briodol i'w hoedran, a pherthnasol fel y gallant ddod i wybod am y nifer enfawr o yrfaoedd yn y GIG, sydd ar gael a sut y gallant gael gafael arnynt.

Dywedodd y gweithwyr proffesiynol sy'n cynghori ar yrfaoedd wrthym ei bod yn bwysig iawn iddynt gael mynediad at wybodaeth o ansawdd uchel a ddatblygwyd gan arbenigwyr mewn gofal iechyd i lywio eu dulliau gweithredu gyda'u disgyblion, myfyrwyr a chleientiaid.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:

- gall pobl o bob oed ddod o hyd i wybodaeth ac adnoddau cywir y gellir ymddiried ynddynt yn hawdd am yrfaoedd GIG Cymru
- Tregyrfa (ar gyfer plant a phobl ifanc), a thudalennau gwe Gyrfaoedd GIG Cymru (ar gyfer pobl ifanc ac oedolion) yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer Gyrfaoedd GIG Cymru
- mae pob rôl yn cael ei hyrwyddo, ac rydym yn estyn allan i bob rhan o'r gymuned
- mae gweithio'n agos gyda phartneriaid (ee, Addysg, Gyrfya Cymru), yn golygu bod ein heffaith gyfunol yn cael ei huchafu

- codir statws a safonau gwybodaeth gyrfaoedd trwy ein gwaith gydag ysgolion a cholegau
- mae ein gwaith yn denu oedolion hŷn a allai fod yn ceisio gwella gyrfya neu gyfleoedd newydd
- mae cynnwys gyrfaoedd iechyd ymarferol ac addysgiadol yn cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm addysg.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- hyrwyddo'r rolau a'r cyfleoedd sydd ar gael gyda deunydd sy'n briodol i'w hoedran, ac sy'n hygyrch ac yn gynhwysol sy'n bodloni anghenion gwahanol ystodau oedran, a chefnidiroedd, ar draws amrywiaeth o gyfryngau a digwyddiadau
- darparu atyniadau gyrfaoedd cynhwysfawr ac ymgyrchoedd marchnata, wedi'u hanelu'n benodol at blant a phobl ifanc
- datblygu ymgyrchoedd ac adnoddau gyrfaoedd sydd wedi'u hanelu at oedolion sy'n chwilio am swyddi a cheiswyr gwaith
- estyn allan at bobl yn ein cymunedau sydd â sgiliau a phrofiad, fel ein bod yn helpu ac yn cefnogi pobl a allai fod yn meddwl am newid gyrfya a chyfeiriad
- targedu proffesiynau lle mae prinder penodol, fel ein bod yn cefnogi blaenoriaethau'r GIG, a chynlluniau gweithlu strategol
- atgyfnerthu enw da'r GIG fel lle rhagorol i weithio gyda llawer o gyfleoedd a datblygiad gyrfya gydol oes.

Thema dau:

Gyrfaoedd a phrofiadau byd
gwaith ystyrlon ac ysbrydoledig
ar draws GIG Cymru.

Pam rydym yn gwneud hyn:

Clywsom, ers Covid-19, fod cyfleoedd profiad gwaith wedi bod yn gyfyngedig mewn llawer o feysydd, yn enwedig ar gyfer dysgwyr oed ysgol.

Mae'r gofynion ar y cwricwlwm, ynghyd ag anawsterau o ran cael mynediad at brofiadau cysylltiedig â byd gwaith, yn golygu bod angen inni fabwysiadu dull gwahanol.

Mae darparu cyfleoedd ysbrydoledig a phrofiadau gwirioneddol o rolau swyddi yn hanfodol er mwyn denu a chodi dealltwriaeth o sut brofiad y gall gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod.

Bydd ein gwaith yn cwmpasu dysgwyr ysgol a choleg, yn ogystal ag oedolion sy'n ceisio mwy o fewnwelediad i'w gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae hyn oherwydd bod angen i'n darpar weithlu yn y dyfodol ddeall gwaith a'r sgiliau, y gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n cael eu gwerthfawrogi yn y gweithle.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:

- mae profiad gwaith ym maes gofal iechyd yn berthnasol ac o ansawdd uchel
- gan adeiladu ar yr arfer da sydd eisoes ar waith, mae ein profiad gwaith yn drosglwyddadwy ac yn cael ei gydnabod wrth wneud cais am astudiaethau a swyddi yn y dyfodol yng Nghymru
- mae ein canllawiau, gwybodaeth ac adnoddau yn helpu cyflogwyr i gynllunio a chyflwyno profiadau ystyrlon a all amrywio o brofiadau blasu undydd i ddisgyblion ysgol, i ddulliau interniaeth, a chynlluniau dychwelyd i'r gwaith
- bydd amrywiaeth o fodelau profiad gwaith, sy'n addas ac wedi'u teilwra i'r yrfa, yn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- gweithio gyda chyflogwyr, ysgolion, colegau a phrifysgolion i adeiladu ar arfer da cyfredol, a chreu fframwaith arfer da
- creu cyfres o becynnau cymorth wedi'u targedu, cynhwysol a hygyrch ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc, gydag adnoddau ategol i hyrwyddo safonau cyson a gwella atyniad ac ymgysylltu â phobl o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol
- gweithio gyda chyflogwyr i gynyddu mynediad at phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith ysbrydoledig a chynhwysol
- darparu dulliau arloesol wedi'u targedu at ystodau oedran penodol, i helpu gweithlu'r dyfodol i ddeall yr ystod lawn o gyfleoedd sydd ar gael iddynt a chael profiad uniongyrchol o'r gweithle
- chwilio am gyfleoedd lle gellir cydnabod phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith a chyfrif tuag at gymwysterau, a cheisiadau i weithio ac astudio
- cael gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol, yn ogystal â ble a pham mae bylchau. Bydd hyn yn llywio ein gwelliant a'n gwaith gyda chyflogwyr a phartneriaid.

Thema tri:

Mynediad i gefnogaeth ac arweiniad arbenigol trwy lysgenhadon a mentoriaid.

Pam rydym yn gwneud hyn:

Rydym am i'n gweithlu gynrychioli ein poblogaeth, a gwyddom fod camsyniadau ynghylch rhai rolau ym maes iechyd.

Amlygodd ein hymgysylltu bwysigrwydd clywed profiad uniongyrchol, ac awgrymodd llawer y dylid datblygu llysgenhadon yn y gweithle, a allai roi persbectif personol ar sut beth yw dysgu, hyfforddi a gweithio ym maes gofal iechyd Cymru.

Clywsom hefyd y bydd mynediad at arbenigwyr perthnasol i'r rhai sy'n darparu cyngor gyrfaoedd yn gwella ansawdd eu gwaith ac yn cynyddu hyder wrth gyflwyno'r wybodaeth gywir.

Gan fod gyrfaoedd bellach yn rhan annatod o'r cwricwlwm, mae cyfle ychwanegol i gysylltu gyrfaoedd gofal iechyd ar draws y cwricwlwm.

Bydd profiad gwaith o ansawdd da, wedi'i ategu gan amrywiaeth o adnoddau i sicrhau bod y profiad o werth i'r unigolyn a'r cyflogwr sy'n cynnal, yn helpu i ehangu cyfleoedd gyrfa.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:

- bydd rhwydwaith o lysgenhadon gofal iechyd yn arddangos amrywiaeth ein pobl, a'r rôl y maent yn ei chyflawni
- wrth i lysgenhadon rannu eu profiadau personol a'u harbenigedd, mae mwy o ffyrdd y mae gweithlu'r dyfodol yn cael gwybodaeth uniongyrchol am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt
- mae pobl yn gallu cael cipolwg ar waith proffesiynau a rolau penodol, gan eu helpu i wneud dewisiadau mwy gwybodus am eu dyfodol
- bydd cynghorwyr gyrfaoedd proffesiynol, sydd â'r rôl o arwain pobl ifanc ac oedolion, yn cael eu cefnogi i gyflawni eu gwaith trwy fynediad at lysgenhadon GIG Cymru.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- ceisio a chefnogi staff y GIG i ddod yn llysgenhadon gyrfa, a fydd yn gallu rhannu eu profiadau personol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno dysgu, hyfforddi a gweithio yn GIG Cymru
- creu cymuned ymarfer i gefnogi cynghorwyr gyrfaoedd proffesiynol gan gynnwys athrawon sy'n darparu cyngor gyrfaoedd, a galluogi rhannu arfer, gwybodaeth a chyfleoedd.

Thema pedwar:

Gwneud y mwyaf o gyfleoedd
ar gyfer dulliau digidol a
thechnolegol.

Pam rydym yn gwneud hyn:

Gwyddom fod technoleg ddigidol a hapchwarae yn dod yn fwy hygyrch, a chlywsom fod angen inni ddarparu cyngor a gwybodaeth gyrfaoedd hygyrch yn y modd hwn lle bo modd.

Bydd rhoi cyfle i bobl 'roi cynnig arni' gan ddefnyddio profiadau efelychu ac ymarfer 'ymarferol' yn gwella dealltwriaeth o yrfaoedd.

Mae angen i ni dargedu ac ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau penodol trwy weithgareddau digidol a gemau.

Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd yn newid yn gyflym, ac mae'n rhaid i ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a'r cyfleoedd gyrfa newidiol hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod hyn yn dibynnu ar fynediad at yr adnoddau sydd ar gael.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:

- mae ein gwaith yn esblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion ein cymunedau a'n cynulleidfaoedd
- rydym yn manteisio ar sgiliau ac adnoddau partneriaid i greu cyfleoedd 'bywyd go iawn' ardderchog ar y cyd
- gall pobl o bob oed roi cynnig ar sgiliau penodol mewn ystod o feysydd i lywio eu dewisiadau yn y dyfodol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- parhau i ehangu Tregyrfa i ddarparu gwybodaeth a chyngor gyrfaoedd cywir, clir a chyfredol i'n plant a'n pobl ifanc
- datblygu ein gwybodaeth a'n hadnoddau sydd ar gael ymhellach ar ein gwe a'n platfformau cyfryngau cymdeithasol fel eu bod yn targedu oedolion yn effeithiol
- gyda'n gilydd, bydd ein cyfres o blatfformau digidol yn gwella'n barhaus ac yn brif ffynhonnell gwybodaeth ddibynadwy y gellir ymddiried ynddi ar gyfer ein gweithlu a'n partneriaid yn y dyfodol
- yn y tymor hir, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu senarios efelychu digidol a di-ddigidol, ac i greu profiadau ystyrlon trwy gemeiddio, realiti rhithwir (RR) a deallusrwydd artiffisial (DA).

5. Y Ddyletswydd Ansawdd

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd wedi dod i rym ers i ni ddechrau datblygu'r fframwaith strategol hwn.

Rydym yn hyderus y bydd y camau gweithredu a amlinellwyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y ddyletswydd hon ar draws y system.

Mae sicrhau bod gennym weithlu ymgysylltiol, brwdfrydig, galluog, hyblyg a chynaliadwy mewn niferoedd digonol yn allweddol i wella ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf, wedi'i ategu gan yr arweinyddiaeth a'r diwylliant cywir.

Beth fydd yn wahanol:

- mae pobl o bob oed yn gallu dod o hyd i wybodaeth ac adnoddau cadarn, cywir, y gellir ymddiried ynnddynt yn hawdd
- deallir 350+ o rolau, llwybrau mynediad, cyfleoedd gyrfa a llwybrau, a chaiff pobl eu denu at yrfaedd yn GIG Cymru fel gyrfa o ddewis
- mae myfyrwyr a hyfforddeion y dyfodol wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu cyrsiau a'u rolau yn y dyfodol, cyn dechrau ar y rhaglenni hyfforddi
- daw gweithlu ein dyfodol o ystod eang o gefndiroedd a thraddodiadau
- partneriaethau gwyb gyda chyflogwyr, ysgolion, cyrff proffesiynol, cynghorwyr gyrfaedd
- mae cyrff addysg bellach ac uwch yn cefnogi darparu profiadau cynhwysol, cyngor dibynadwy, a gwybodaeth.



Dangosyddion Craidd

Er mwyn ein helpu i fesur cynnydd a gwella ein gwaith yn y maes hwn yn barhaus, byddwn yn datblygu cyfres o ddangosyddion craidd ansoddol a meintiol a fydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- ddefnyddio Tregyrfa, tudalennau gwe ac adnoddau allweddol eraill - gan gynnwys nifer yr ymweliadau â thudalennau penodol
- cynnydd yn y ddarpariaeth o phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith
- perfformiad ymgyrch wedi'i dargedu
- adborth profiad defnyddiwr ee arolwg o ysgolion/penaethiaid
- adborth gan bartneriaid a rhanddeiliaid
- adolygiad arfer gorau blynyddol

Bydd cyflawni'r fframwaith strategol hwn yn cyfrannu at sicrhau bod gennym gyflenwad gweithlu llawn cymhellant ac ymgysylltiol ar gyfer GIG Cymru yn y dyfodol

6. Sut y gwnaethom ddatblygu'r fframwaith hwn

Yn gynnar yn 2023, fe wnaethom ddechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid â'n Rhwydwaith Gyrfaoedd Iechyd a Gofal, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o iechyd, gofal cymdeithasol, addysg uwch ac addysg bellach yn ogystal â chyrrff cynghori gyrfaoedd.


Fe wnaethom ymchwilio i'r syniadau diweddaraf a'r arferion gorau ac archwilio tueddiadau poblogaeth i helpu i lywio ein sgwrsiau.

Ar ddiwedd y gwanwyn a'r haf 2023, fe wnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu, lle daethom â'n hadborth ymchwil ac ymgysylltu cynnar ynghyd, gan brofi ein ffordd o feddwl a'n gwybodaeth i'n helpu i lunio'r gwaith hwn. Mae crynodeb 'ar dudalen' o'r dull hwn i'w weld ar dudalen 4 y ddogfen hon.

Gofynnem i'n rhanddeiliaid roi eu barn i ni ar ddulliau gweithredu presennol ar draws y system, pa mor effeithiol yr oeddent yn teimlo, lle'r oedd cyfleoedd i gryfhau arfer da, a lle'r oedd bylchau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy.

Cyfranwyr

Cyfrannodd cynrychiolwyr o 32 o sefydliadau ledled Cymru yn weithredol at ein digwyddiadau ymgysylltu a bu eu cyfraniadau yn llywio'r ddogfen hon.



Yr hyn a glywsom

Clywsom fod mynediad at ddulliau amserol, pwrpasol wedi'u targedu, wedi'u hategu gan adnoddau o ansawdd uchel y gellir ymddiried ynddynt yn allweddol. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys darparu profiad gwaith rhagorol a hygyrch a sesiynau blasu gwaith, gwybodaeth, ac arweiniad ar lwybrau addysg yn ogystal â rolau swyddi, a gallu siarad â phobl yn y rolau.

Clywsom hefyd am yr angen i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n cynghori gyrfaoedd yn ogystal ag athrawon yn gallu cael mynediad at un pwynt arbenigedd ar gyfer gyrfaoedd iechyd.

Mae hyn wedi ein harwain at 4 egwyddor gyffredinol. Fe wnaethom brofi'r meddylfryd hwn gyda'r rhanddeiliaid hyn, a gadarnhaodd fod eu cyfraniadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y dull hwn.

5. Datblygu ein Fframwaith Strategol Gyrfaoedd - Ein hymagwedd

Pam fod hyn yn bwysig

Nid yw gweithlu yn fater galluogi – mae'n hollbwysig i ddarparu gwasanaeth. Mae pwysau system difrifol a phrinder gweithlu sylweddol. Mae angen inni:

- fod yn fwy cydnaws ag anghenion gwasanaethau
- mae angen i ni ddenu gweithlu am heddiw, 5, 10 a 15+ mlynedd yn y dyfodol
- mae angen inni gynnig dysgu a datblygu gydol oes, parhaus
- mae angen inni gael llwybrau datblygu gyrfa clir, gweladwy a chyffrous
- mae angen i ni baratoi ein myfyrwyr a'n gweithwyr yn y dyfodol yn well

Mae ein Graddedigion Iechyd Proffesiynol 2030 mewn blynyddoedd TGAU. Mae ein Meddygon F1 2030 ar hyn o bryd yn astudio Safon Uwch. Mae ein graddedigion iechyd o 2033 bellach yn Gen Alpha. Ni allwn wneud gormod, yn rhy gynnar!

Ein nod

Ysbrydoli, Hysbysu a Dylanwadu ar Unigolion o bob oed i chwilio am yrfaedd yn GIG Cymru

Ein llinell amser

Mawrth - Awst: Ymgysylltu/casglu tystiolaeth

Gorffennaf - Hydref: Dadansoddi a drafftio

Tachwedd - Rhagfyr: Ymgynghori ar

Rhagfyr - Chwefror: Siapo terfynol

Mawrth: Cymeradwyaeth y Bwrdd

Ebrill: Lansio

Yr hyn a wnaethom brofi

Dulliau pwrpasol amserol, wedi'u targedu gan gynnwys:

- ysbrydoli dysgu cyn profiad gwaith
- profiad gwaith/rhagflas rhagorol a hygyrch
- llwybrau gyrfa i staff
- gwybodaeth, arweiniad, chwalu mythau
- marchnata gan gynnwys. Hysbysebu teledu
- mentora, secondiadau, llysgenhadon
- ehangu mynediad a Dysgu Seiliedig ar Waith
- adnoddau a chanllawiau i rieni, gwarcheidwaid, athrawon a chynghorwyr
- adnoddau digidol/tech, gan gynnwys. efelychiad ac VR

Ein cwmpas

- ysgolion a cholegau AB
- ymgynghorwyr ac athrawon/tiwtoriaid gyrfa
- partneriaid addysg uwch a phrifysgol
- cyflogwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
- gweithlu anodd ei gyrraedd yn y dyfodol

Y camau a gymerwyd gennym

Ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid mewnol ac allanol i lywio a llunio'r strategaeth. Curadu ymchwil ac arfer gorau. Dadansoddi data – gan gynnwys tueddiadau poblogaeth a gwahaniaethau rhwng cenedlaethau, ac wedi cynhyrchu fframwaith strategol

Ein carfan Targed

- dysgwyr ysgol, ymadawyr, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr a hyfforddeion sy'n graddio
- gweithwyr y GIG
- gofalwyr
- pobl o grwpiau nas clywir yn aml
- rhai hŷn a'r rhai sy'n ceisio newid gyrfa
- gwirfoddolwyr

Sut beth yw llwyddiant gweithredu

Gall pobl o bob oed ddod o hyd i wybodaeth ac adnoddau yn hawdd ac maent yn cael eu denu at yrfaeodd yn GIG Cymru. Mae yna gyfleoedd dilyniant gyrfa clir gyda llwybrau lluosog. Mae ein staff yn cynrychioli ystod eang o gefndiroedd a thraddodiadau. Mae darpar fyfyrwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cyrsiau a rolau gofal iechyd yn y dyfodol, cyn dechrau ar y rhaglenni hyfforddi. Mae gwybodaeth am 350+ o rolau ar gael. Herio canfyddiadau a chodi dyheadau.

Partneriaethau gwych gyda chyflogwyr, ysgolion, AB ac AU i ddarparu cyngor, profiad a chefnogaeth wych.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Trawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach

nhswalescareers@wales.nhs.uk